Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	24 Mai 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl	Canllaw Cyfansoddiad

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud a chanllaw iaith arferol i'r Cyfansoddiad

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi canllaw iaith arferol i'r Cyfansoddiad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cymeradwyo cynnwys y Canllaw i'r Cyfansoddiad sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'w gyhoeddi.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae a37 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn mynnu bod gan y Cyngor Gyfansoddiad sy'n cynnwys gwybodaeth benodol a'i fod yn ei diweddaru. Mae a45 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn diwygio a37 i'w gwneud yn ofynnol, yn ogystal, bod y Cyngor yn cynhyrchu canllaw iaith arferol i'r Cyfansoddiad ac yn ei ddiweddaru.

4.2. Mae'n ofynnol i gynghorau roi sylw i ganllawiau statudol wrth gynhyrchu eu canllaw cyfansoddiad. Mae canllawiau statudol drafft yn awgrymu y dylai Cynghorau ystyried y mathau o ryngweithio y gall aelodau'r cyhoedd eu cael gyda'r Cyngor, megis sut i gael mynediad at gyfarfodydd a chofnodion, hawliau siarad cyhoeddus ac ati, ac esboniad o sut mae'r Cyngor yn gweithio.

4.3. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda Chyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol, wedi cynhyrchu canllaw cyfansoddiad enghreifftiol y mae'r canllawiau statudol drafft yn awgrymu ei fod yn fan cychwyn defnyddiol.

4.4. Ynghlwm fel Atodiad 1 mae Canllaw Cyfansoddiad drafft sy'n seiliedig ar y canllaw enghreifftiol a gynhyrchwyd gan CLlLC. Mae'r canllaw enghreifftiol yn caniatáu ar gyfer addasu i gydnabod amrywiadau lleol yng nghyfansoddiadau cynghorau. Mae'r drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 wedi'i addasu i'w ddarllen ar y cyd â Chyfansoddiad y Cyngor.

4.5. Bydd Aelodau'n gweld bod y canllaw yn ceisio nodi'r mathau o gwestiynau y gallai rhywun ddymuno dod o hyd i'r ateb iddynt yn y Cyfansoddiad. Mae'r canllaw yn ceisio rhoi ateb byr i'r cwestiynau hynny a chyfeirio'r darllenydd at y rhan berthnasol o'r Cyfansoddiad am fanylion pellach.

4.6. Os yw aelodau'n fodlon â chynnwys y canllaw, caiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â mabwysiadu'r canllaw.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau gyda'r Pwyllgorau Craffu, fodd bynnag, bu nifer o weithdai gydag aelodau yn ystod y broses o ddatblygu'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg os na chaiff canllaw cyfansoddiad ei fabwysiadu na fydd y Cyngor yn cydymffurfio â darpariaethau'r ddeddfwriaeth berthnasol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a37 Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel y'i diwygiwyd yn rhagolygol gan a45 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021